

# Merthyr Tewdrig


## Amdiffynfeydd presennol a'r tebygolrwydd o lifogydd

Mae'r amddiffynfeydd môr presennol yn diogelu tir amaethyddol a phentrefi ar Wastatir Caldicott.

Yn nodweddiadol mae 1 siawns mewn 200 o lifogydd llanw ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn er mae manau isel lle mae'r perygl o lifogydd llanw lleol yn uwch.

Bydd perygl llifogydd yn cynyddu wrth i lefelau'r môr godi ac wrth i stormydd waethgu.

Argloddiau pridd yw'r amddiffynfeydd fel arfer, gyda diogelwch congrid neu garreg yn aml.



## Beth ellir ei wneud?

Byddwn yn parhau i gynnal yr amryg amddiffynfeydd dros y 100 mlynedd nesaf. Gall hyn gynnwys llenwi manau isel yn ôl y galw yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf.


Ein bwriad yw codi lefelau argloddiau mewn cyfnodau i gadw'n wastad â newid hinsawdd, er ni ddisgwylir unrhyw waith mawr am o leiaf 20 mlynedd.

Byddwn yn gweithio gyda Network Rail i sicrhau bod y diogelwch yn parhau'n gryf yn y man lle mae'r amddiffynfa llifogydd yn cwrdd â'r llinell reilffordd yn St Pierre Pill.

Bydd y gweithrediadau hyn yn sicrhau na fydd y siawns o lifogydd llanw yn gwaethgu mwy nag 1 siawns mewn 50 mewn unrhyw flwyddyn.

Gellid symud rhai o'r argloddiau i'r mewnwr yn gyfochrog â'r llinell reilffordd er mwyn cael gwell diogelwch ond go brin y bydd hyn yn cael ei gyfiawnhau tan ddiwedd y ganrif. Byddai hyn ond yn cael ei wneud trwy gytundeb gyda'r perchnogion tir.

## Allwedd

 Amdiffynfeydd presennol a gyfeirir atynt yn y ddogfen

## Nodyn ar godiad yn lefel y môr

Mae senario allyriadau canolog UKCP09 yn rhagweld codiad yn lefel y môr o 0.1m erbyn 2030, tua 0.3m erbyn 2060 a 0.7m erbyn 2110.

Ar hyn o bryd mae lefel y môr yn codi rhyw 2 i 2.5mm y flwyddyn. Os bydd y gyfradd hon yn parhau yna byddai codiad yn lefel y môr yn llai na'r hyn a ragamcanwyd gan y senario allyriadau canolog UKCP09.

## Sut y penderfynwyd ar y cynigion hyn

Mae achos economaidd gref dros gynnal a gwella'r amddiffynfeydd presennol oherwydd y nifer uchel o eiddo a seilwaith a ddiogelir.

Mae'n bosibl, tuag at ddiwedd y ganrif hon, y daw hi'n fwy costeffeithiol i symud amddiffynfeydd i mewn i'r tir i barhau i leihau perygl llifogydd llanw. Bydd hyn yn ddibynnol ar y codiad gwirioneddol yn lefel y môr a brofir.